**GRŴP FFRAMWAITH IECHYD A LLES ANIFEILIAID CYMRU**

**Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ym Mharc Cathays, Caerdydd ar 17 Medi 2015**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Peredur Hughes | Cadeirydd |
| Christianne Glossop | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Joanna Price | |
| Huw Davies | |
| Ifan Lloyd | |
| David Davies | |
| Moss Jones | |

**Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Chris Hale | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Carol Harris | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Janet Perry | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Tony Joss | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Irene Allen | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |

**<u>Eitem Agenda 1: Croeso</u>**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i chweched cyfarfod y Grŵp. Eglurodd y byddai Jackie Price a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn ymuno â'r cyfarfod ar gyfer yr eitem agenda ar TB, y byddai Dr Ruth Clements yn ymuno â'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar gloffni defaid ac y byddai David Lloyd Thomas yn ymuno i roi diweddariad at y Fframwaith Amaethyddiaeth.

**<u>Eitem Agenda 2: Cofnodion a Phwyntiau Gweithredu o Gyfarfod 3 Mehefin</u>**

2. Cafodd cofnodion terfynol a'r pwyntiau gweithredu wedi'u diweddaru o'r cyfarfod diwethaf eu e-bostio at Aelodau'r Grŵp ym mis Medi fel rhan o'r papurau ar gyfer y cyfarfod hwn. Mae mwyafrif y pwyntiau gweithredu wedi'u cwblhau. Mae rhai pyntiau gweithredu ar waith o hyd ac mae eraill wedi cael eu cyflwyno i'w trafod yn y cyfarfod hwn.

3. Gofynnodd Ifan am ddiweddariad ar yr Adolygiad o Goleri sy'n rhoi Sioc Drydanol, y rhai sy'n cael eu gweithredu o bell i ddibenion hyfforddi a'r rhai a ddefnyddir ar y cyd â systemau cyfyngu ffensys trydan. Eglurodd Christianne fod adolygiad annibynnol o'r sail dystiolaeth ar waith ar hyn o bryd. Disgwylir y caiff hwn ei gwblhau yn yr Hydref. Cytunwyd y bydd diweddariad ar y gwaith hwn yn y cyfarfod nesaf.

***Pwynt Gweithredu 1 – Yr Ysgrifenyddiaeth i gomisiynu diweddariad ar yr Adolygiad o Goleri sy'n rhoi Sioc Drydanol ar gyfer y cyfarfod nesaf.***

**<u>Eitem Agenda 3: Diweddariad gan y Cadeirydd</u>**

**Sioe Frenhinol Cymru (RWS)**

4. Diolchodd Peredur i Aelodau'r Grŵp am eu presenoldeb yn y Sioe gan fod hwn wedi bod yn gyfle da i gwrdd â rhanddeiliaid. Croesawodd y Grŵp yr ymateb i'r arolwg o fioddiogelwch yn y Sioe. Eglurodd Carol fod yr arolwg wedi parhau drwy gydol yr haf a bod disgwyl iddo ddirwyn i ben ddechrau mis Hydref. Y cam nesaf fydd dadansoddi'r canlyniadau ac yna'u cyhoeddi yn y man.

**Bwrdd Llywodraethu Gwyliadwriaeth (SGB)**

5. Eglurodd Peredur fod yr Ysgrifenyddiaeth wedi bod mewn cysylltiad ag Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Gwyliadwriaeth Clefydau Anifeiliaid. Credir fod y SGB yn y broses o gytuno ar eu cylch gorchwyl ac y bydd yn trafod llinellau adrodd i'r Grŵp AHWF cyn hir. Gofynnodd Jo am restr o aelodau'r SGB.

***Pwynt Gweithredu 2: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu manylion am aelodaeth y SGB***

**Dolur Rhydd Feirysol mewn Gwartheg (BVD)**

6. Cafwyd diweddariad gan Peredur ar y cynigion ar BVD a chadarnhawyd fod y ffenestr ar gyfer ceisiadau i'r Cynllun Datblygu Gwledig ar Gydweithredu ar agor yn awr. Eglurodd fod John Griffiths wedi bod yn bresennol mewn gweithdy ar 1 Medi gan y Tîm Cynllun Datblygu Gwledig i ddarparu arweiniad pellach ar baratoi ceisiadau. Bydd y gwaith yn parhau i ddatblygu cynigion, yn fwyaf penodol datblygu cronfa ddata i ategu'r cynllun.

**Defnydd Cyfrifol o Feddyginiaethau mewn Amaethyddiaeth (RUMA)**

7. Eglurodd Peredur mai un o brif flaenoriaethau'r Grŵp yn 2015/16 oedd codi ymwybyddiaeth o ymwrthedd gwrthficrobaidd a chefnogi Strategaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd 5 Mlynedd y DU. Bydd Huw a Christianne yn bresennol yn y Gynhadledd ar Ddefnydd Cyfrifol o Feddyginiaethau, a gynhelir yn Llundain ar 3 Tachwedd. Mae John Fitzgerald o RUMA wedi'i wahodd i'r cyfarfod nesaf ar 2 Rhagfyr.

***Pwynt Gweithredu 3: Huw a Christianne i roi adborth yn dilyn y gynhadledd RUMA.***

8. Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar fioddiogelwch, yn fwyaf penodol y safonau sy'n cael eu gweithredu mewn sioeau. Holodd Jo am safon y bioddiogelwch sydd ar waith yn y sector ceffylau, yn benodol brechu anifeiliaid sy'n mynychu sioeau a gweithredu rheolau FEI.

***Pwynt Gweithredu 4: Yr Ysgrifenyddiaeth i godi mater bioddiogelwch ar gyfer ceffylau a gweithredu safonau FEI gyda'r tîm Clefydau Egsotig. Y Tîm Clefydau Egsotig i ystyried ac i godi'r mater â Chymdeithas y Sioe Frenhinol yn y man.***

9. Cytunodd Moss y byddai'n cychwyn sgwrs â'r Ocsiynwyr Da Byw ar fioddiogelwch.

***Pwynt Gweithredu 5: Moss i drafod bioddiogelwch â'r Ocsiynwyr Da Byw ac i adrodd yn ôl i'r Grŵp.***

10. Cadarnhaodd Peredur y bydd yn cwrdd â Rebecca Evans, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ar 4 Tachwedd.

**<u>Eitem Agenda 4: Diweddariad gan Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru</u>**

11. Cafwyd diweddariad gan Christianne ar y canlynol;

**Newidiadau Strwythurol o fewn Llywodraeth Cymru**

12. Eglurodd Christianne fod strwythur y Cyfarwyddwr Cyffredinol o fewn Llywodraeth Cymru wedi cael ei symleiddio. Mae Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi aros o fewn Cyfoeth Naturiol ond roedd yn awr yn adrodd i Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol. Mae'r strwythur newydd hwn yn annog gweithio hyblyg ar draws portffolios.

**Adroddiadau Monitro Clefydau Rhyngwladol (IDM)**

13. Cytunwyd y bydd adroddiadau IDM misol yn cael eu rhannu ag aelodau'r Grŵp Fframwaith. Bydd y rhain yn cael eu cadw'n gyfrinachol ac ni fyddant yn cael eu dosbarthu'n ehangach.

***Pwynt Gweithredu 6: Yr Ysgrifenyddiaeth i anfon Adroddiadau IDM at y Grŵp yn fisol.***

14. Cafwyd trosolwg byr gan Christianne o'r achos o BTV8 a ganfuwyd yn Ffrainc yn ddiweddar ac eglurodd y byddai'r sefyllfa'n cael ei adolygu ac y darperir diweddariadau'n ôl yr angen.

**Opsiynau Cyflenwi ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Anifeiliaid yng Nghymru**

15. Eglurodd Christianne fod llawer o waith wedi'i wneud. Chris Hale bellach yw'r Uwch Swyddog adrodd ar gyfer y gwaith hwn. Bydd y Grŵp yn cael ei ddiweddaru'n ôl yr angen.

**Archwiliad Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd (OIE)**

16. Eglurodd Christianne fod cytundeb ymhlith y Prif Swyddogion Milfeddygol ledled y DU i gynnal hunan asesiad o'r strwythurau a'r gwasanaethau sydd ar waith. Bydd arolygwyr yn ymweld â Chymru ym mis Medi. Gobeithir y bydd yr archwiliad yn help i ganfod meysydd lle mae angen gwella a newid.

**Cymdeithas Sioe Frenhinol Cymru a Chynllunio wrth Gefn**

17. Eglurodd Christianne ei bod yn dal i gwrdd â Chymdeithas y Sioe Frenhinol yn rheolaidd. Esboniodd bwysigrwydd sicrhau safonau bioddiogelwch uchel mewn sioeau. Er enghraifft, roedd y Sioe eleni'n cael ei chynnal ar yr un adeg ac

achos o ffliw adar yn Swydd Gaerhirfryn. Mae Cymdeithas y Sioe wedi cydweithio'n agos â Swyddfa'r Prif Filfeddyg i sicrhau bod archwiliadau ychwanegol yn cael eu cynnal ar adar yn y Sioe Frenhinol. Dywedodd fod ymarferiad cynllunio wrth gefn pwysig wedi'i drefnu ar gyfer Chwefror 2016. Mae ymarferiad tebyg ar gyfer clwy'r Traed a'r Genau wedi'i drefnu ar gyfer Tachwedd 2015. Bydd yr ymarferiad yn canolbwyntio ar y penderfyniad i frechu. Holodd Dai a fyddai manwerthwyr yn barod i gymryd llaeth / cynnyrch o anifeiliaid sydd wedi'u brechu. Cytunodd Christianne y dylai hyn gael ei ystyried wrth gynllunio senarios.

***Pwynt Gweithredu 7: Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu â'r tîm Clefydau Egsotig i ystyried y posibilrwydd a fyddai manwerthwyr yn barod i gymryd llaeth / cynnyrch llaeth o anifeiliaid sydd wedi'u brechu.***

18. Eglurodd Christianne y bydd yn gwneud cyflwyniad yn y Digwyddiad Symposiwm Bwyd ar 29 Medi, lle bydd yn trafod rôl milfeddygon mewn cynhyrchu bwyd. Eglurodd y bydd hefyd yn gwneud cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y Ceidwaid Dofednod yng Nghymru. Cytunwyd y byddai'r Grŵp yn rhannu eu syniadau â Christianne ar y prif negeseuon ar gyfer y sector dofednod. Cytunwyd hefyd y byddid yn rhoi sylw i'r sector moch. Cytunodd y Grŵp y byddai'n fuddiol cael cyflwyniad yn un o gyfarfodydd y dyfodol.

***Pwynt Gweithredu 8: Aelodau'r Grŵp i anfon eu syniadau ar brif negeseuon ar gyfer y diwydiant dofednod at yr Ysgrifenyddiaeth.***

***Pwynt Gweithredu 9: Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyflwyniadau ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol ar faterion lles allweddol sy'n gysylltiedig â'r sectorau moch a dofednod.***

## Eitem Agenda 5: Cyflwyniad ar y Dangosfwrdd TB a Chymorth TB

19. Croesawodd y Cadeirydd Jackie Price, Pennaeth y Tîm TB a Paul Schroeder (APHA). Cafwyd cyflwyniad gan Paul ar y dangosfwrdd TB newydd. Dywedwyd y bydd y dangosfwrdd yn cael ei gyhoeddi ar-lein yn fuan.

20. Roedd y Grŵp o'r farn bod y Dangosfwrdd TB yn gam positif iawn ymlaen tuag at gyflwyno'r darlun o TB yng Nghymru. Awgrymodd Peredur fod y cyflwyniad yn cael ei roi gerbron y byrddau Dileu TB hefyd.

***Pwynt Gweithredu 10: Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu â'r Tîm TB i drefnu cyflwyniad ar y Dangosfwrdd TB gerbron y Byrddau Dileu TB.***

## Eitem Agenda 6: Cynllun Gweithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid ar gyfer 2015/16

21. Eglurodd Carol fod ymrwymiad yn nogfen AHWF Cymru i gyhoeddi adolygiad canol blwyddyn ar weithredu'r cynllun ar gyfer 2015/16. Eglurodd fod y broses i adolygu cynnydd ar waith ac y byddai diweddariad yn cael ei gyhoeddi ddechrau 2016. Eglurodd fod gwaith yn mynd rhagddo i ystyried y Ddeddf

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol newydd a'i fod yn alinio â'r Fframwaith Strategol ar gyfer Amaethyddiaeth (AHWF) arfaethedig. Cytunodd y Grŵp y byddai'n fuddiol cael cyflwyniad ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i goblygiadau.

***Pwynt Gweithredu 11: Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyflwyniad ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer un o gyfarfodydd y dyfodol.***

**<u>Eitem Agenda 7: Cyflwyniad a thrafodaeth ar gloffni defaid - Dr Ruth Clements</u>**

22. Croesawodd Peredur Dr Ruth Clements, Pennaeth Rhaglenni Milfeddygol, FAI Farms Ltd i'r cyfarfod. Cafwyd diweddariad gan Ruth ar ei methodoleg a'i dull o weithio â chloffni defaid, a thrafododd â'r Grŵp y posibilrwydd o ddatblygu model hyfforddi ar-lein ar gloffni defaid. Croesawodd y Grŵp y cyflwyniad a chydnabu'r gwaith y mae Ruth a'i thîm yn ei wneud yn y maes. Eglurodd Chris efallai y bydd cyfle i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb am gyllid drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru ond byddai'n rhaid gwneud hyn mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol y diwydiant yng Nghymru.

**<u>Eitem Agenda 8: Diweddariad ar y Fframwaith Strategaeth ar gyfer Amaethyddiaeth yng Nghymru</u>**

23. Croesawodd y Cadeirydd David Lloyd Thomas a fu'n diweddaru'r Grŵp ar y gwaith i ddatblygu'r Fframwaith Strategol ar gyfer Amaethyddiaeth yng Nghymru. Diolchodd i Aelodau'r Grŵp am eu hymateb i'r ymgynghoriad. Eglurodd fod yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd ac y byddai ymateb ffurfiol yn cael ei gyhoeddi ar ôl cwblhau'r gwaith hwn. Dywedodd y byddai angen llawer o waith i ddatblygu ffordd newydd o weithio â diwydiant. Cydnabu ddiddordeb y Grŵp a'r rôl bosibl y gallai ei chwarae i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

**<u>Eitem Agenda 9: Blaenoriaethau'r Sector Lles</u>**

24. Eglurodd Peredur mai un o bwyntiau gweithredu'r cyfarfod diwethaf oedd y byddai Jo ac Ifan yn parhau â'r gwaith i ymgysylltu â'r sector lles ceffylau ac anifeiliaid anwes. Gwahoddodd Jo a Huw i roi diweddariad ar gyfarfod Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru a gynhaliwyd ar 9 Medi. Hefyd croesawodd Irene Allen, pennaeth Polisi Lles Anifeiliaid, i'r cyfarfod. Eglurodd Jo fod y cyfarfod â'r AWNW wedi bod yn bositif iawn a'i fod wedi arwain at lawer o drafod ar flaenoriaethau a dulliau gweithio. Dywedodd fod rhai themâu allweddol wedi dod i'r amlwg lle gellid bwrw ymlaen â'r gwaith. Y rhain oedd "Addysg, data o ansawdd uchel, gorfodaeth effeithiol, a deddfwriaeth effeithiol". Dywedodd hefyd fod cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol yn hanfodol. Eglurodd fod llawer o waith ar ôl i'w wneud ond bod y cyfarfod wedi bod yn gam cyntaf positif. Bydd cyfarfod arall â'r AWNW ar 23 Hydref. Cytunodd Jo ac Ifan y byddant yn awr yn gweithio ag Irene a'r Ysgrifenyddiaeth i baratoi ar gyfer y cyfarfod hwn.

***Pwynt Gweithredu 12: Jo ac Ifan i weithio ag Irene a thîm yr Ysgrifenyddiaeth i baratoi ar gyfer cyfarfod nesaf yr AWNW ar 23 Hydref.***

**Eitem Agenda 10: Unrhyw Fater Arall**

25. Cododd Moss fater y cynigion ar gyfer cyflwyno rheoliadau i alluogi unedau cwarantin i gael eu defnyddio fel dewisiadau heblaw'r darpariaethau gwahardd symud 6 diwrnod. Dywedodd mai bioddiogelwch oedd conglfaen popeth rydym yn ei wneud a hefyd bod cyfle i wneud cais am gyllid drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru. Eglurodd Moss fod ganddo ddau brif bryder. Y cyntaf oedd yr hoffai weld darpariaethau o fewn y rheoliadau arfaethedig ar gyfer ffermwyr i ddefnyddio unedau cwarantin dan do ac awyr agored ar yr un pryd Dywedodd hefyd ei fod yn bryderus mai'r isafswm gwariant o dan y Cynllun Datblygu Gwledig oedd £40,000 ac na fyddai'n costio cymaint â hyn i weithredu systemau unedau cwarantin i'r rhan fwyaf o ffermwyr fyddai â diddordeb. Eglurodd Tony fod swyddogion yn gweithio â rhanddeiliaid ar wahanol senarios gan gynnwys y posibilrwydd o gael dau leoliad ar gyfer unedau cwarantin ar yr un daliad ond eu bod yn cael eu rheoli fel un. Eglurodd fod yr opsiwn hwn yn un hyfyw o hyd ond roedd angen gwneud llawer o waith â rhanddeiliaid i sicrhau ei fod yn un ymarferol. Eglurodd Tony y gallai unedau dan do ac awyr agored, gael eu defnyddio ar yr un pryd mewn egwyddor, ar yr amod eu bod yn cael eu cynnwys o fewn un uned cwarantin, a gyda un cyfeirnod CPH. Byddai gweithdai'n cael eu trefnu â rhanddeiliaid i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Gofynnodd Tony i'r rhanddeiliaid am eu hawgrymiadau ar gyfer senarios posibl y gellid eu defnyddio i roi prawf ar yr opsiwn hwn. Diolchodd y Grŵp i Tony. Yn dilyn trafodaeth, cefnogodd Peredur, Moss, Ifan, Dai, Jo a Huw gynnig Moss y dylai ffermwyr gael defnyddio unedau cwarantin awyr agored a dan do ar yr un pryd fel opsiwn heblaw'r cyfyngiadau gwahardd symud 6 diwrnod. Eglurodd Christianne nad oedd, yn rhinwedd ei swydd fel Prif Swyddog Milfeddygol Cymru, mewn sefyllfa i gymeradwyo hyn ar hyn o bryd ac y byddai'n rhaid paratoi asesiad risg i werthuso goblygiadau polisi o'r fath yn ogystal ag aros am ganlyniadau'r gweithdai.

***Pwynt Gweithredu 13: Aelodau'r Grŵp i anfon senarios ymlaen at yr Ysgrifenyddiaeth.***

***Pwynt Gweithredu 14: Tony i ymgorffori senarios wrth gynllunio'r gweithdai a rhoi diweddariad i'r Grŵp pan fydd canfyddiadau'r gweithdai wedi cael eu coladu a'u dadansoddi.***

26. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Iau 2 Rhagfyr 2015 ym Mharc Cathays. Fel y gwyddoch mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi trefnu cyfarfodydd ymlaen llaw felly mae gennym gyfarfod ar ddydd Iau 3 Mawrth 2016.